

NOT PROTECTIVELY MARKED

Polisi Preifatrwydd

Mae Horizon Nuclear Power Services Limited a phob un o Ymgymeriadau ei Grŵp (fel y diffinnir y term yn adran 1161 i 1162 o Ddeddf Cwmnïau 2006) (gyda'i gilydd, "Horizon Nuclear Power" neu "ni") yn ymrwymedig i ddiogelu a pharchu'ch preifatrwydd.

Mae'r polisi hwn yn nodi ar ba sail y bydd unrhyw ddata personol y byddwn yn ei gasglu oddi wrthy ch, neu y byddwch chi yn ei roi i ni, yn cael ei brosesu gennym. Darllenwch y canlynol yn ofalus er mwyn deall ein barn a'n harferion ynghylch eich data personol a sut y byddwn yn delio â'r data hwnnw.

At ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 (y "Ddeddf"), y rheolydd data yw Horizon Nuclear Power Services Limited (rhif y cwmni 06812099) o 5210 Valiant Court, Gloucester Business Park, Caerloyw, GL3 4FE.

Yn y Polisi Preifatrwydd hwn, mae "gwefan" neu "gwefannau" yn golygu'r gwefannau a grëir ac a weinyddir gan neu ar ran Horizon Nuclear Power gan gynnwys gwefannau sy'n cyfeirio at y Polisi Preifatrwydd hwn neu sy'n cynnwys dolen i'r Polisi Preifatrwydd hwn.

GWYBODAETH Y BYDDWN EFALLAI YN EI CHASGLU ODDI WRTHYCH

Efallai y byddwn yn casglu ac yn prosesu'r data canlynol amdanoch chi:

- Gwybodaeth y byddwch yn ei darparu drwy lenwi ffurflenni ar ein gwefannau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarperir adeg cofrestru i ddefnyddio'n gwefannau, tanysgrifio i unrhyw wasanaethau yr ydym yn eu darparu, postio deunydd neu ofyn am ragor o wasanaethau. Efallai hefyd y byddwn yn gofyn ichi am wybodaeth pan fyddwch yn ein hysbysu am broblem ar un o'r gwefannau.
- Os byddwch yn cysylltu â ni, efallai y byddwn yn cadw cofnod o'r ohebiaeth honno.
- Efallai hefyd y byddwn yn gofyn ichi gwblhau arolygon y byddwn yn eu defnyddio at ddibenion ymchwil, er nad oes yn rhaid ichi ymateb iddynt.
- Manylion eich ymweliadau â'n gwefannau, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata traffig, data lleoliad, blogiau a data cyfathrebu eraill, a'r adnoddau y byddwch yn eu cyrchu.

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

CWCIS A CHYFEIRIADAU IP

Ffeiliau data bychain yw cwcis sy'n cael eu hanfon i gyfrifiadur neu ffôn symudol y defnyddiwr o wefan. Wedyn maen nhw'n cael eu storio ar yriant caled dyfais y defnyddiwr.

Mae rhai mathau o gwcis, sef "cwcis sesiwn", yn storio gwybodaeth ar beiriant y defnyddiwr hefyd, er bod y wybodaeth hon yn cael ei dileu pan fydd y porwr yn cael ei ddiffodd.

Mae Horizon yn defnyddio nifer o offerynnau dadansoddeg i gasglu gwybodaeth am sut mae pobl yn defnyddio ei wefannau. Mae hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr fod ein gwefannau yn bodloni anghenion defnyddwyr a chael gwybod sut y gallwn wella.

Mae cwcis dadansoddeg (analytics) yn storio gwybodaeth am y tudalennau y mae pobl yn ymweld â nhw, am ba hyd y maen nhw ar y safle, sut y daethon nhw yno a'r hyn y maen nhw'n clicio arno. Nid yw cwcis dadansoddeg yn casglu nac yn storio gwybodaeth bersonol defnyddwyr. Felly ni ellir defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod pwy yw unigolion.

Mae Horizon hefyd yn defnyddio cwcis sesiwn dros dro i helpu defnyddwyr i lywio'r gwefannau.

Ceir rhestr lawn o'r cwcis a ddefnyddir ar wefannau Horizon isod:

Cwci	Enw	Pwrpas	Rhagor o wybodaeth
Derbyn cwcis safle Horizon	ga_stats	Defnyddir y cwci hwn i gofnodi a yw defnyddiwr wedi derbyn y defnydd o gwcis ar wefan Horizon.	I dynnu'ch caniatâd yn ôl ar ôl derbyn y cwci hwn, dylech ddileu y cwci ga_stats.
Google Analytics	_utma _utmb _utmc _utmz	Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am sut mae ymwelwyr yn defnyddio'n safle. Byddwn yn ei defnyddio wedyn i'n helpu i wella'r safle. Mae'r cwcis yn casglu gwybodaeth ar ffurf ddienw, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr â'r safle, o ble	Cliciwch yma am drosolwg o breifatrwydd yn Google

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

		mae ymwelwyr â'r safle wedi dod a'r tudalennau yr ymwelwyd â hwy.	
Cwci dros dro hanfodol	PHPSESSID	Mae'r cwci hwn yn hanfodol ar gyfer gweithrediad y safle - caiff ei ddefnyddio i gofio manylion o gwmpas y safle fel llywio a'r briwsionyn. Caiff y cwci hwn ei ddileu pan fyddwch yn cau'r porwr.	Cliciwch yma i fynd i www.php.net

Gallwch wrthod cwcis drwy glicio ar 'gwrthod cwcis'/'decline cookies' pan fydd ein safle yn cyflwyno'r neges ichi. Neu gallwch eu diffodd ar eich porwr gwe.

Mewn rhai amgylchiadau, gall diffodd y cwcis effeithio ar y defnydd o'r gwefannau. Mae'r rhan fwyaf o borwyr yn derbyn ac yn cynnal cwcis yn awtomatig a gallwch osod eich porwr i'ch hysbysu pan fyddwch yn derbyn cwci, sy'n rhoi'r cyfle ichi benderfynu a ydych am ei dderbyn neu beidio.

Efallai fod tudalennau gwefannau yn cynnwys delweddau electronig o'r enw tywyswyr gwe (a elwir weithiau'n gifs picseol sengl) sy'n gadael inni gyfrif nifer y defnyddwyr sydd wedi ymweld â'r tudalennau hynny. Nid yw tywyswyr gwe yn cael eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth a allai eich adnabod yn bersonol ar y gwefannau. Techneg ydynt y gallwn ei defnyddio i gasglu ystadegau cyfanredol am y defnydd o'r wefan. Mae tywyswyr gwe yn casglu set gyfyngedig o wybodaeth yn unig gan gynnwys rhif cwci, amser a dyddiad edrych ar dudalen a disgrifiad o'r dudalen lle mae'r tywysydd gwe yn trigo.

Gyda chwcis, neu hebddynt, mae gwefannau'n cadw trywydd o ddata defnydd, megis y cyfeiriad ffynhonnell y mae'r cais am y dudalen yn dod ohono (h.y. eich cyfeiriad IP), enw parth, dyddiad ac amser gwneud y cais am y dudalen, y wefan sy'n cyfeirio (os o gwbl) a pharamedrau eraill yn yr URL (e.e. meini prawf chwilio). Rydym yn defnyddio'r data hwn er mwyn deall y defnydd o wefannau'n well, er mwyn inni wybod pa ardaloedd ar y wefan y mae'r defnyddwyr yn eu hoffi orau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio mewn ffeiliau log ac yn cael ei defnyddio ar gyfer adroddiadau ystadegol a chyfanredol, ond nid yw'n cael ei phriodoli i chi fel unigolyn.

BLE RYDYM YN STORIO'CH DATA PERSONOL

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

Ar hyn o bryd, mae holl ddata Horizon yn cael ei ddal yn y DU. Ond, yn y dyfodol, efallai y bydd y data yr ydym yn ei gasglu oddi wrthyh chi yn cael ei drosglwyddo i leoliad, a'i storio mewn lleoliad, y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop ("AEE"). Efallai hefyd y bydd yn cael ei brosesu gan staff sy'n gweithredu y tu allan i AEE sy'n gweithio i ni neu i un o'n cyflenwyr. Efallai y bydd y cyfryw staff yn ymwneud, ymysg pethau eraill, â darparu gwasanaethau cymorth. Drwy gyflwyno'ch data personol, rydych yn cytuno i'r trosglwyddo, storio neu brosesu hyn. Byddwn yn cymryd pob cam sy'n rhesymol ofynnol i sicrhau bod eich data'n cael ei drin yn ddiogel ac yn unol â'r Polisi Preifatrwydd hwn.

Mae'r holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu i ni yn cael ei storio ar ein gweinyddion diogel ni a/neu ar weinyddion diogel ein cyflenwyr TG. Os byddwn wedi rhoi cyfrinair ichi (neu lle rydych chi wedi dewis cyfrinair) sy'n eich galluogi chi i gyrchu rhannau penodol o un o'n gwefannau, chi sy'n gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Rydym yn gofyn ichi beidio â rhannu cyfrinair â neb. Yn anffodus, nid yw trosglwyddo gwybodaeth dros y rhyngwyd yn gwbl ddiogel. Er y byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddiogelu eich data personol, allwn ni ddim gwarantu diogelwch eich data a drosglwyddir i'n gwefannau; rydych yn ei drosglwyddo ar eich menter eich hun. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelu llym i geisio atal mynediad heb ei awdurdodi.

DEFNYDD A WNEIR O'R WYBODAETH

Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei dal amdanoch yn y ffyrdd canlynol:

- Er mwyn sicrhau bod cynnwys ein gwefannau'n cael ei gyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithiol i chi a'ch cyfrifiadur.
- Er mwyn rhoi mynediad i chi at y gwefannau a chymryd camau yng nghyswllt y gwefannau.
- Er mwyn darparu gwybodaeth neu wasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt gennym neu y teimlwn ni y gallent fod o ddiddordeb i chi, lle rydych wedi cytuno i ni gysylltu â chi at ddibenion o'r fath.
- Er mwyn cysylltu â chi, lle bo'n briodol, mewn cysylltiad â chyfleoedd busnes, a gwybodaeth, cyngor a chymorth busnes arall.
- Er mwyn cysylltu â chi i ddarparu cylchlythyron neu wybodaeth am ddigwyddiadau.
- Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau sy'n deillio o unrhyw gontractau rhyngoch chi a ni.
- Er mwyn eich galluogi chi i ddefnyddio nodweddion rhyngweithiol ein gwasanaeth, pan fyddwch yn dewis gwneud hynny.
- Er mwyn gwerthuso'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

- Er mwyn monitro amrywiaeth.
- Er mwyn targedu adnoddau.
- Er mwyn eich hysbysu am newidiadau i'n gwasanaeth.

DATGELU'CH GWYBODAETH

Efallai y byddwn yn datgelu'ch gwybodaeth i unrhyw aelod o'n grŵp, sy'n golygu ein his-gwmnïau, ein prif gwmni daliannol a'i is-gwmnïau, fel y'u diffinnir yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006 y DU.

Efallai y byddwn yn datgelu'ch gwybodaeth bersonol i drydydd partiön:

- Os byddwn yn gwerthu neu brynu unrhyw fusnes neu asedau ac, os felly, efallai y byddwn yn datgelu'ch data personol i ddarpar werthwr neu brynwr busnes neu asedau o'r fath.
- Os bydd un neu holl gwmnïau Horizon Nuclear Power neu'r rhan fwyaf o'u hasedau yn cael eu caffael gan drydydd parti ac, os felly, bydd data personol y mae'n ei gadw amdanoch yn cael ei drosglwyddo i'r trydydd parti.
- Os oes dyletswydd arnom i ddatgelu neu i rannu'ch data personol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd gyfreithiol, neu er mwyn gorfodi neu gymhwyso unrhyw rai o Delerau ac Amodau unrhyw rai o'r gwefannau a chytundebau eraill; neu i ddiogelu hawliau, eiddo neu ddiogelwch Horizon Nuclear Power neu eraill. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth gyda chwmnïau a sefydliadau eraill at ddibenion gwarchod rhag twyll a lleihau risg credyd.
- Os byddwn yn eich hysbysu cyn casglu'ch data personol y byddwn yn ei ddatgelu i drydydd partiön neu yn cael eich caniatâd wedyn i ddatgeliad o'r fath. Os byddwn am ddatgelu'ch data i drydydd partiön at ddibenion marchnata, byddwn yn rhoi'r dewis i eithrio ichi, sy'n cael ei ddisgrifio yn y paragraff nesaf.

EICH HAWLIAU

Mae gennych hawl i ofyn inni beidio â phrosesu'ch data personol at ddibenion marchnata. Fel arfer, byddwn yn rhoi gwybod ichi (cyn casglu'ch data) os ydym yn bwriadu defnyddio'ch data at y dibenion hynny neu os ydym yn bwriadu datgelu'ch gwybodaeth i unrhyw drydydd parti at y dibenion hynny. Os ydym yn bwriadu defnyddio neu ddatgelu'ch data yn y fath fodd, byddwn yn rhoi blychau pwrpasol ichi ar y ffurflenni a ddefnyddiwn i gasglu'ch data a gallwch arfer eich hawl i atal prosesu o'r fath drwy dicio'r blychau. Gallwch hefyd arfer yr hawl unrhyw bryd drwy gysylltu â ni yn 5210 Valiant Court, Gloucester Business Park, Caerloyw, GL3 4FE neu info@horizonnuclearpower.com.

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

Gall ein gwefannau o bryd i'w gilydd gynnwys dolenni i wefannau sefydliadau eraill, ac ohonynt. Os byddwch yn dilyn dolen i unrhyw rai o'r gwefannau hyn, cofiwch fod gan y gwefannau hyn eu polisïau preifatrwydd eu hunain ac nad ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am y polisïau hyn. Edrychwch ar y polisïau hyn cyn cofnodi unrhyw ddata personol ar y gwefannau hyn.

MYNEDIAD AT WYBODAETH

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i chi gael mynediad at wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch. Gellir arfer eich hawl i fynediad yn unol â'r Ddeddf. Gall unrhyw gais am fynediad i wybodaeth amdanoch olygu ffi o £10 i dalu'n costau ar gyfer darparu manylion y wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch ichi.

NEWIDIADAU I'N POLISI PREIFATRWYDD

Bydd unrhyw newidiadau y byddwn o bosibl yn eu gwneud i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu postio ar y dudalen hon a, lle bo'n briodol, fe'ch hysbysir amdanynt dros yr e-bost.

CYSYLLTU

Rydym yn croesawu cwestiynau, sylwadau a cheisiadau ynghylch y polisi preifatrwydd hwn a dylid eu cyfeirio at Sunrise House, 1420 Charlton Court, Gloucester Business Park, Gloucester, GL3 4AE neu info@horizonnuclearpower.com.

NOT PROTECTIVELY MARKED